

***Cyngor Caerdydd***  
***Rhestr o Ffioedd a Chostau***  
***Trwyddedau Alcohol ac Adloniant***  
***(mewn grym o 24.11.2005)***

Mae'r Llywodraeth Ganolog wedi pennu ffioedd am bob math o ganiatâd dan Ddeddf Trwyddedu 2003 ac maen nhw'n seiliedig ar werth ardrethol annomestig y safle. Rhennir y rhain yn 5 band:

Band	A	B	C	D	E
<b>Gwerth ardrethol annomestig</b>	£0 - £4300	£4,301 - £33,000	£33,001 - £87,000	£87,000 - £125,000	£125,001 a mwy

Os ydych chi'n gwybod eich cod post gallwch chi weld gwerth ardrethol annomestig eich eiddo ar wefan y Swyddfa Brisio [www.voa.gov.uk](http://www.voa.gov.uk).

Mae ffioedd hefyd wedi'u pennu am y cais cychwynol ac mae cost flynyddol.

**FFIOEDD CAIS AM DRWYDDED SAFLE A THYSTYSGRIFAU SAFLE CLWB**

GWERTH ARDRETHOL ANNOMESTIG	BAND	FFI CAIS AM DRWYDDED NEU DYSTYSGRIF NEWYDD NEU AMRYWIAD	FFI AM SAFLE A DDEFNYDDIR YN UNIG NEU'N BENNAF I GYFLENWI ALCOHOL
Dim gwerth ardrethol i £4300	A	£100	£100
Rhwng £4300 a £33,000	B	£190	£190
Rhwng £33,001 a £87,000	C	£315	£315
Rhwng £87,001 a £125,000	D	£450	£900
£125,001 neu fwy	E	£635	£1905

**COSTAU BLYNYDDOL**

GWERTH ARDRETHOL ANNOMESTIG	BAND	COST FLYNYDDOL	FFI AM SAFLE A DDEFNYDDIR YN UNIG NEU'N BENNAF I GYFLENWI ALCOHOL
Dim gwerth ardrethol i £4300	A	£70	£70
Rhwng £4300 a £33,000	B	£180	£180
Rhwng £33,001 a £87,000	C	£295	£295

Rhwng £87,001 a £125,000	D	£320	£640
£125,001 neu fwy	E	£350	£1050

**Dylid cyflwyno pob ffi gyda'ch ffurflen gais neu ni fydd y cais yn cael ei brosesu a chewch chi wybod felly. Dylid nodi'r enw 'Cyngor Caerdydd' ar sieciau a'r swm cywir am y cais dan sylw.**

£315 fydd y ffi yn achos safleoedd lle y mae gwaith adeiladu'n mynd rhagddo, a safleoedd na ddyfarnwyd gwerth ardrethol annomestig iddyn nhw, sef y ffi am geisiadau datganiad dros dro. Bydd ffioedd blynyddol ar ôl hynny'n seiliedig ar werth ardrethol annomestig a ddyfernir i'r eiddo.

### **Ffi Cais Personol**

£37 yw'r ffi am drwydded bersonol newydd neu am gael adnewyddu trwydded bersonol.

### **Digwyddiadau ar Safle Mawr**

Mae hon yn ffi ychwanegol at y ffioedd cais ac amrywio arferol. Mae lleoliadau parhaol sydd wedi'u hadeiladu'n bwrpasol ar gyfer y gweithgaredd wedi'u heithrio o'r ffi ychwanegol. Mae'n bosibl bod modd cael trwydded safle barhaol a byddai ffi flynyddol ychwanegol am honno. Serch hynny, efallai y gallai hynny fod yn ddibynnol ar ymarferoldeb llunio cynllun(iau) nad yw/ydynt yn destun amrywio bob blwyddyn, ac amserlen gweithredu sy'n bodloni awdurdodau cyfrifol a phartïon â diddordeb. Fel arall, efallai y bydd angen iddyn nhw wneud cais am drwydded newydd bob blwyddyn.

<b>Nifer y bobl</b>	<b>Ffioedd ychwanegol</b>
5,000 – 9,999	£1,000
10,000 – 14,999	£2,000
15,000 – 19,999	£4,000
20,000 – 29,999	£8,000
30,000 – 39,999	£16,000
40,000 – 49,999	£24,000
50,000 – 59,999	£32,000
60,000 – 69,999	£40,000
70,000 – 79,999	£48,000
80,000 – 89,999	£56,000
90,000 a mwy	£64,000

### **Ffioedd Amrywiol**

Bydd yr Awdurdodau Trwyddedu hefyd yn gallu codi ffioedd eraill mewn perthynas â'u dyletswyddau, yn bennaf yn achos digwyddiadau dros dro a thrwyddedau personol.

Cais am drwydded bersonol neu am ei hadnewyddu	£37.00
Hysbysiad digwyddiad dros dro	£21.00
Trwyddedau safle neu ddogfennau crynodeb sydd wedi'u dwyn, colli ac ati	£10.50
Cais am ddatganiad dros dro lle y mae safle wrthi'n cael ei adeiladu, ac ati	£315.00
Hysbysiad newid enw neu gyfeiriad	£10.50
Cais am amrywiad bach	£89.00
Cais am gael amrywio trwydded i nodi goruchwylydd safle (unigolyn)	£23.00
Cais am i'r gofyniad am Oruchwylydd Safle Dynodedig gael ei ddiystyru yn achos Safle Cymunedol	£23.00
Cais am gael trosglwyddo trwydded safle	£23.00
Hysbysiad awdurdod dros dro yn dilyn marwolaeth etc. deiliad trwydded	£23.00
Tystysgrif neu ddogfen grynodedig sydd wedi'i dwyn, ei cholli ac ati	£10.50
Hysbysiad newid enw neu reolau clwb	£10.50
Newid cyfeiriad cofrestredig perthnasol clwb	£10.50
Hysbysiad digwyddiad dros dro sydd wedi'i ddwyn, golli ac ati	£10.50
Trwydded bersonol sydd wedi'i dwyn, ei cholli ac ati	£10.50
Dyletswydd i roi gwybod am newid enw neu gyfeiriad	£10.50
Hawl rhydd ddeiliad i gael gwybod am faterion trwyddedu	£21.00

### **Eithriadau Ffi**

Fydd dim ffioedd yn achos trwyddedau safle i sefydliadau addysgol megis ysgolion a cholegau at ddibenion cynnal adloniant rheoledig cyn belled ag y'i cynhelir at ddibenion ac ar ran y sefydliad addysgol. Yn yr un modd, fydd dim ffioedd am adloniant rheoledig yn achos ceisiadau cysylltiedig neuaddau eglwys/capel neu adeiladau tebyg, neu neuaddau pentref/plwyf/cymuned neu adeiladau tebyg. **Dim ond yn achos adloniant rheoledig y mae'r eithriadau hyn yn berthnasol, ac nid ydynt yn berthnasol os gweinir neu cyflenwir alcohol a/neu luniaeth gyda'r hwyrnos ar y safle.** I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a'r tîm trwyddedu.

**Mae pob ffi'n ffi cais i dalu'r cost i'r awdurdod lleol am ddelio â'r cais. Dylech chi nodi nad oes modd ad-dalu ffioedd o'r fath yn gyffredinol, ond mae'r awdurdod trwyddedu'n cadw'r hawl i ad-dalu ffioedd mewn amgylchiadau eithriadol.**

**Mae'r Gwasanaeth Trwyddedu wedi ymrwmo i ymdrin â'r laith Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb, rydym yn croesawu ceisiadau i ddarparu gwybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.**